

# Esgidiau a bagiau



# Esgidiau a bagiau

## Esgid 'droi'

**Esgid 'droi'** — fe'i gelwir yn esgid 'droi' am fod yr esgid gyfan yn cael ei gwneud ar bren troed a'i gwnio ynghyd fel bod y semau a'r pwythau i gyd ar yr ochr allan. Roedd yr esgid yn cael ei mwydo mewn dŵr wedyn nes bod y lledr yn feddal ac yn ystwyth, cyn troi'r esgid tu chwith allan. Ar ôl ei throi tu chwith allan, roedd y lledr yn mynd yn ôl i siâp ac yn caledu wrth iddo sychu. Caiff yr esgid ei chau gan ddefnyddio carreiau lledr yn cael eu rhoi drwy dyllau yng 'ngholeri' y pigwrn, a byddai'r math hon o esgid wedi cael ei gwisgo gan bobl ar sawl lefel wahanol o'r gymdeithas.



### Sut ydyn ni'n gwybod am esgidiau troi?

Mae esgidiau troi wedi'u canfod yn ystod cloddiadau archaeolegol, ond mae llawer o ddarluniau ohonynt mewn llawysgrifau canoloesol. Mae'r esgid droi hon wedi'i chopio o enghraifft gynnar yn y 13eg Ganrif.



# Esgidiau a bagiau

## Esgid 'bag'

**Esgid 'bag'** — fe'i gelwir yn esgid 'bag' am fod y cyfan yn tynnu at ei gilydd yn ddigon tebyg i fag â llinyn tynnu. Mae'n adeiladwaith syml wedi'i wneud o un darn o ledr, felly wrth y sawdl yn unig y mae'r gwnïo (oni bai bod gwadn ychwanegol wedi'i wnïo arno fel yn yr enghraifft hon). Byddai'r math hwn o esgid wedi cael ei gwisgo gan bobl o statws is yn y cyfnod canoloesol, a chan fynachod.



### Sut ydyn ni'n gwybod am esgidiau bag?

Mae'r math hwn o esgid wedi'i ddefnyddio ledled Ewrop ar hyd hanes o'r Oes Efydd i'r 20fed ganrif, gan ddsbarthiadau cymdeithasol amrywiol. Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar esgid y daethpwyd o hyd iddi yn Dorestad, yr Iseldiroedd.



# Esgidiau a bagiau

## Pwrs arian lleidr a darnau arian Edward I

**Pwrs arian lleidr a darnau arian Edward I** — mae lleidr y pwrs hwn yn feddal ac yn denau, a byddai wedi bod yn ddrutach na'r lleidr mwy trwchus a ddefnyddiwyd ar gyfer pyrsau llai drud. Mae iddo garrai lleidr tenau sy'n tynnu ceg y pwrs ynghyd, a byddai hefyd wedi'i defnyddio i hongian y pwrs o felt.

Mae'r darnau arian yn ddetholiad o arian cyfan ac arian wedi'u torri. Roeddent yn cael eu torri am mai ceiniog oedd y darn arian â'r gwerth isaf, a phan ddechreuwyd talu pobl gyffredin â darnau arian a dechrau prynu nwyddau ag arian (yn hytrach na chyfnwid nwyddau a gwasanaethau) roedd angen darnau arian gwerth llai na cheiniog arnynt. Dechreuodd pobl dorri ceiniogau yn eu hanner a chwarteri fel eu bod yn gallu prynu nwyddau o werth isel a rhoi newid.

Ar yr un pryd, roedd llawer o ddarnau wedi'u 'clipio'. Roedd darnau arian yn cael eu gwneud o arian, ac roedd pobl yn clipio metel o ymylon y darnau arian, ac yn toddi'r metel wedi'i glipio er mwyn gwneud pethau eraill. Roedd hyn yn anghyfreithlon, a'r canlyniad oedd gwneud darnau arian Prydeinig yn arian cyfred annibynadwy, am fod darnau arian i fod â phwysau penodol, a olygai mai yn y metel ei hun oedd eu gwerth. Nid yw darnau arian modern wedi'i gwneud o fetel sy'n werthfawr ynddo'i hun, maent yn warant o daliad.

O ganlyniad i glipio darnau arian a dynion anonest yn gweithio yn y Bathdy Brenhinol yn ychwanegu aloi yn anghyfreithlon at y darnau arian, fe wnaeth economi Prydain wynebu argyfwng rhwng 1275 a 1278. Ym 1279, fe wnaeth Edward I ddiswyddo'r dynion anonest yn y Bathdy, a chyflwyno darnau arian newydd — ffyrllingod crwn ym 1279, a hanner ceiniogau crwn ym 1280. Tynnwyd darnau arian wedi'u torri allan o gylchrediad bryd hynny.



### Sut ydyn ni'n gwybod am byrsau lleidr a darnau arian Edward I?

Mae pyrsau arian lleidr yn cael eu disgrifio a'u darlunio mewn llawysgrifau canoloesol, ac mae darnau arian wedi'u canfod yn ystod cloddfeydd archaeolegol. Mae llawysgrifau canoloesol yn cofnodi'r 'ail-fathu' gan Edward I ar ddiwedd y 13eg Ganrif.



# Esgidiau a bagiau

## Bag belt / gwregys

**Bag Belt / Gwregys** — yn y dyddiau cyn i ddillad gael pocedi wedi'u gwnio arnynt, roedd pawb yn gwisgo beltiau neu wregysau lledr (beltiau isel yn cael eu gwisgo gan fenywod yw gwregysau) gyda chydau neu fagiau'n hongian oddi wrthynt. Roedd y cwd lledr replica hwn yn fath a oedd yn cael ei wisgo'n gyffredin, gyda dolenni belt.

Roedd cydau neu fagiau lledr ynghlwm wrth feltiau yn cael eu defnyddio'n gyffredin ym Mhrydain o ddiwedd y 1100au hyd at o leiaf 1500. Roedd amrywiadau o ran y dyluniad, a hefyd o ran y math o ledr a ddefnyddiwyd (roedd croen gafr a chroen mochyn yn cael eu defnyddio yn ogystal â lledr wedi'i wneud o groen buwch). Roedd cydau a physau ffabrig o'r enw Aumonieres, a ddefnyddiwyd gan fonheddwyr i ddal elusen, yn cael eu defnyddio bryd hynny hefyd.



### Sut ydyn ni'n gwybod am fagiau a chydau belt?

Mae llawer o ddarluniau canoloesol yn dangos bagiau belt tebyg, a oedd yn cael eu defnyddio i gludo eitemau bach. Mae nifer o gasgliadau o aumonieres mewn amgueddfeydd yn Ewrop.

# Esgidiau a bagiau Budget

**Budget** — roedd y casys silindr hyn, o'r enw 'budgets', yn cael eu gwneud drwy bwytho'r lledr, yna'i fwydo mewn dŵr, a'i fowldio o amgylch ffurfydd pren. Ar ôl iddo sychu, roedd y cas yn cael ei orchuddio â chroen gafr neu groen llo tenau. Mae hyn yn gwneud cas sy'n eithaf diddos ac yn ddigon cryf i ddiogelu'r cynnwys.



## Sut ydyn ni'n gwybod am budgets?

Mae'r casys hyn yn cael eu dangos mewn llawysgrifau yn dyddio rhwng 1100OC a 1600OC.